Multi Agency Public Protection Arrangements

# Gogledd Cymru



# Adroddiad Blynyddol 2023-2024

# Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) Gogledd Cymru 2023 – 2024 ar ran y Bwrdd Rheoli Strategol.

MAPPA yw'r dull a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Carchardai fel Awdurdodau Cyfrifol i gydweithio ag asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu fel Gwasanaethau Tai, Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaethau Iechyd ac eraill. Cydweithio i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed a chadw aelodau o'n cymunedau'n ddiogel. Canfod unigolion MAPPA, darparu asesiadau a goruchwylio cynlluniau rheoli risg effeithiol ar gyfer y rheini sydd wedi'u cael yn euog o'r troseddau treisgar, rhywiol a therfysgol mwyaf difrifol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ystadegau dros y flwyddyn busnes ddiwethaf, gan amlinellu nifer y rhai a reolir dan MAPPA a dangos i gymunedau lleol sut rydyn ni, fel aelodau o'r Bwrdd Rheoli Strategol, yn cyflawni ein dyletswydd statudol i leihau'r niwed i'r cyhoedd ac i reoli risg. Cydnabyddir bod canran y bobl sy'n destun MAPPA yn isel. Fodd bynnag, gall yr effaith ar ddioddefwyr ac aelodau o'r gymuned o ganlyniad i'r troseddau hyn fod yn anfesuradwy. Felly, un o flaenoriaethau sefydliadol craidd y Bwrdd Rheoli Strategol yw datblygu a sbarduno effeithiolrwydd MAPPA yn y rhanbarth ac ar draws y pedair cwnstabliaeth.

Mae sefydlu fforwm cadeiryddion Bwrdd Rheoli Strategol Cymru rhanbarthol wedi cefnogi'r gallu i fanteisio i'r eithaf ar y gwersi a ddysgwyd o fewn MAPPA ac i wella ansawdd y safonau. Llywio gweithrediadau MAPPA yng Nghymru mewn dull unedig i sicrhau newid, arloesi mewn gwasanaethau, a chanlyniadau gwell i ddioddefwyr a chymunedau lleol. Mae diwedd y flwyddyn hon wedi cyflwyno newidiadau deddfwriaethol o ran rhyddhau carcharorion, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar MAPPA gan fod Byrddau Rheoli Strategol wedi gweithio gyda'i gilydd i reoli trefniadau a gwasanaethau'n effeithlon. Hoffwn ddiolch am holl ymrwymiad rhanddeiliaid ac asiantaethau i MAPPA yn ystod y cyfnod hwn. Heb gyfraniadau pob asiantaeth, ni fyddai MAPPA yn gallu cyflawni ei nod, sef cadw cymunedau lleol yn ddiogel drwy reoli risg yn effeithiol.



Nicola Davies
Cyfarwyddwr y Gwasanaeth
Prawf Rhanbarthol, Cymru

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

Cyfres o drefniadau yw MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) i reoli'r risg a gyflwynir gan y troseddwyr rhyw, terfysgaeth a threisgar gwaethaf (unigolion cymwys ar gyfer MAPPA) o dan ddarpariaethau rhannau 325 i 327B o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Maen nhw'n dod â'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai ym mhob un o'r 42 o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr o dan gorff sy'n cael ei alw'n Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill Ddyletswydd i Gydweithredu (DTC) â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd, Timau Troseddwyr Ifanc, Yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Awdurdodau Addysg a Thai Lleol.

Y Byrddau Rheoli Strategol Lleol sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol ac asiantaethau DTC sy'n gyfrifol am gyflwyno MAPPA yn eu hardaloedd. Mae'n ofynnol hefyd i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Gynghorydd Lleyg i eistedd ar bob Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA.

Mae'r Cynghorwyr Lleyg yn aelodau o'r cyhoedd a benodir gan y Gweinidog, sydd heb unrhyw gysylltiad â'r busnes o reoli unigolion cymwys ar gyfer MAPPA ac sy'n gweithredu fel arsylwyr annibynnol ond gwybodus; gallant ofyn cwestiynau na fyddai staff proffesiynol yn gweithio yn y maes yn meddwl eu gofyn. Maent hefyd yn cyfrannu eu dealltwriaeth a'u persbectif ar y gymuned leol at y Bwrdd Rheoli Strategol (mae'n rhaid bod ganddynt gysylltiadau cryf â'r gymuned leol a'u bod yn byw yno).

## Sut mae MAPPA yn gweithio

Mae unigolion sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn cael eu pennu ac mae gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau fel sail i asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y bobl sy'n eu rheoli neu eu goruchwylio.

Dyna gyn belled ag y mae MAPPA yn mynd yn y rhan fwyaf o achosion. Ond, mewn rhai achosion, mae angen goruchwyliaeth ar lefel uwch a rheolaeth amlasiantaethol strwythuredig. Mewn achosion o'r fath, bydd ymarferwyr yr asiantaethau perthnasol yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd MAPPA.

Mae pedwar categori o unigolyn sy'n gymwys ar gyfer MAPPA:

- **Categori 1** – yn amodol ar ofynion hysbysu troseddwyr rhyw;
- **Categori 2** – y rheini a gafwyd yn euog o droseddau treisgar yn bennaf ac sydd wedi eu dedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar neu i orchymyn ysbyty;
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategorïau 1, 2 na 4 ond y mae eu troseddau'n cyflwyno risg o niwed difrifol.
- **Categori 4** – terfysgaeth a gafwyd yn euog ac unigolion risg terfysgaeth

Nid yw data ar unigolion Categori 4 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn oherwydd materion diogelu data sy'n ymwneud â niferoedd isel. Bydd y data hwn yn cael ei gyfuno a'i gyhoeddi'n genedlaethol.

Mae tair lefel o reolaeth i sicrhau bod yr adnoddau'n canolbwyntio ar yr achosion lle mae eu hangen fwyaf; fel arfer, y rheini sy'n peri risg uwch o niwed difrifol.

- **Lefel 1** yw lle mae'r unigolyn yn cael ei reoli gan y brif asiantaeth drwy gyfnewid gwybodaeth a darparu **cymorth amlasiantaethol** yn ôl yr angen ond heb gyfarfodydd MAPPA ffurfiol;
- **Lefel 2** yw lle mae angen cyfarfodydd MAPPA ffurfiol i reoli'r unigolyn.

- **Lefel 3** yw lle mae'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn am bresenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch mewn cyfarfodydd MAPPA.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System Technoleg Gwybodaeth genedlaethol yw hon i helpu i reoli unigolion sy'n cyflwyno risg ddifrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae defnyddio ViSOR yn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau a throsglwyddo gwybodaeth allweddol yn ddiogel pan fydd unigolion risg uchel yn symud rhwng ardaloedd, gan wella unrhyw fesurau diogelu'r cyhoedd. Mae ViSOR yn golygu bod staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a Charchardai'n gallu gweithio ar yr un system TG, gan wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu.

Mae holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn: www.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

**Unigolion sy'n gymwys ar gyfer MAPPA ar 31 Mawrth 2024**

| | Categori 1: Yn amodol ar ofynion hysbysu troseddwyr rhyw | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | 1066 | 251 | _ | 1317 |
| Lefel 2 | 17 | 20 | 17 | 54 |
| Lefel 3 | 0 | 1 | 1 | 2 |
| Cyfanswm | 1083 | 272 | 18 | 1373 |

**Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA – Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol)**

| | Categori 1: Yn amodol ar ofynion hysbysu troseddwyr rhyw | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 | 45 | 54 | 53 | 152 |
| Lefel 3 | 2 | 4 | 0 | 6 |
| Cyfanswm | 47 | 58 | 53 | 158 |

| | |
|---|---|
| Categori 1 wedi cael rhybudd neu eu canfod yn euog o dorri'r gofynion hysbysu | 49 |

| | |
|---|---|
| Categori 1 lle penderfynwyd diddymu eu gofyniad hysbysu gydol oes drwy wneud cais | 0 |

**Gorchmynion cyfyngu ar gyfer troseddwyr Categori 1**

| | |
|---|---|
| Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) | 81 |
| SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor | 0 |
| Gorchymyn Hysbysu | 2 |

| | |
|---|---|
| Nifer yr unigolion a ddaeth yn destun gofynion hysbysu troseddwr rhyw yn dilyn torri Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) | 0 |

**Unigolion Lefelau 2 a 3 sydd wedi dychwelyd i'r ddalfa**

| Dychwelyd i'r ddalfa am dorri amodau trwydded | Categori 1: Yn amodol ar ofynion hysbysu | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Lefel 2 | 20 | 11 | 20 | 51 |
| Lefel 3 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 21 | 11 | 20 | 52 |

| Torri SHPO | |
|---|---:|
| Lefel 2 | 1 |
| Lefel 3 | 0 |
| Cyfanswm | 1 |

| Cyfanswm nifer yr unigolion sy'n destun gofynion hysbysu troseddwyr rhyw fesul 100,000 o'r boblogaeth | 175 |
|---|---:|

Mae'r ffigur hwn wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r amcangyfrifon o'r boblogaeth trigolion ganol 2022, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 21 Rhagfyr 2022, ac eithrio plant iau na 10 mlwydd oed.

Yn unol â chyhoeddiadau blaenorol, dylai'r ffigur hwn fod yn seiliedig ar amcangyfrif o'r boblogaeth trigolion ganol 2023. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi newid ei hamserlen gyhoeddi fel y bydd amcangyfrifon canol 2023 yn cael eu cyhoeddi yn nes ymlaen eleni. O'r herwydd, mae'n bosibl y bydd y ffigur presennol yn wahanol i'r ffigur cyfatebol ar sail amcangyfrifon canol 2023.

# Esboniad o’r tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm r unigolion sy’n gymwys ar gyfer MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu’r darlun ar 31 Mawrth 2024 (hynny yw, maent yn rhoi cipolwg). Mae gweddill y data yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

**(a) unigolion sy’n gymwys ar gyfer MAPPA** – mae’r gyfraith yn diffinio unigolion fel unigolion sy’n gymwys i gael eu rheoli gan MAPPA oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhywiol, treisgar neu derfysgol penodol neu eu bod ar hyn o bryd yn peri risg o niwed difrifol. Rheolir y rhan fwyaf ar Lefel 1 heb gyfarfodydd MAPPA ffurfiol. Mae’r ffigurau hyn yn cynnwys dim ond yr unigolion sy’n gymwys ar gyfer MAPPA ac sy’n byw yn y gymuned. Nid ydynt yn cynnwys rhai sydd yn y carchar neu dan glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**(b) Unigolion sy’n destun Gofynion Hysbysu Troseddwr rhyw** – sef y rhai sydd angen hysbysu’r heddlu ynghylch eu henw, cyfeiriad a manylion personol eraill a rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau sy’n digwydd wedyn (sef y “gofyniad hysbysu.”) Mae’r unigolion hyn yn cael eu hasesu a’u rheoli gan yr heddlu. Gallant hefyd gael eu rheoli gan y gwasanaeth prawf neu’r gwasanaeth iechyd os ydynt yn destun trwydded neu orchymyn ysbyty. Mae methu â chydymffurfio â’r gofyniad hysbysu’n drosedd sy’n arwain at uchafswm cosb o bum mlynedd yn y carchar.

**(c) Troseddwyr Treisgar** – unigolion a gafwyd yn euog o droseddau treisgar a ddedfrydwyd i garchar neu eu cadw’n gaeth am 12 mis neu fwy, neu a gedwir dan orchymyn ysbyty a nifer fach o unigolion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu. Mae’r unigolion hyn yn cael eu hasesu a’u rheoli gan y Gwasanaeth Prawf, y Tîm Troseddwyr Ifanc neu’r Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

**(d) Troseddwyr Peryglus Eraill** – – unigolion nad ydynt yn gymwys o dan y ddau gategori cymwys ar gyfer MAPPA eraill ond sy’n cyflwyno risg o niwed difrifol sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA. Mae’r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a’u rheoli gan ba bynnag asiantaeth sy’n bennaf gyfrifol amdanynt.

**(e) Troseddwyr Risg Terfysgaeth a Therfysgaeth** – unigolion sy’n ddarostyngedig i ofynion hysbysu troseddwyr terfysgaeth; unigolion a gafwyd yn euog o droseddau sy’n ymwneud â therfysgaeth neu derfysgaeth a ddedfrydwyd i garchar neu eu cadw am 12 mis neu fwy, neu a gafodd eu cadw dan orchymyn ysbyty; a’r rheini sydd wedi cyflawni trosedd ac a allai fod mewn perygl o gymryd rhan mewn gweithgarwch sy’n gysylltiedig â therfysgaeth. Mae’r unigolion hyn yn cael eu hasesu a’u rheoli gan yr Heddlu Gwrthderfysgaeth ac Adran Diogelwch Cenedlaethol y Gwasanaeth Prawf.

**(f) Torri Trwydded** – bydd unigolion sy’n cael eu rhyddhau i’r gymuned ar ôl cyfnod yn y carchar yn cael eu rhoi ar drwydded gydag amodau (o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os nad yw’r unigolyn yn cydymffurfio â’r amodau hyn, bydd y Gwasanaeth Prawf yn cymryd camau tor-amod a gall yr unigolyn gael ei alw’n ôl i’r carchar.

**(g) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor).** Bwriad Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a Gorchmynion Atal Troseddau Rhywiol dros dro sy’n disodli Gorchmynion Atal Troseddau Rhywiol yw diogelu’r cyhoedd rhag unigolion a gafwyd yn euog o drosedd rhywiol neu dreisgar sy’n peri risg o niwed rhywiol i’r cyhoedd drwy osod cyfyngiadau a/neu rwymedigaethau cadarnhaol ar eu

hymddygiad. Maent yn gofyn bod yr unigolyn yn rhoi ei fanylion i'r heddlu (yn unol â Rhan 2 o Ddeddf 2003) drwy gydol cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon yn ôl pwysau tebygolrwydd bod angen y gorchymyn i warchod y cyhoedd (neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion agored i niwed (neu unrhyw blant neu oedolion agored i niwed penodol) dramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais annibynnol gan Brif Swyddog neu'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA), yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP), Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MODP), rhaid i'r prif swyddog / NCA/ BTP/MODP ddangos bod yr unigolyn wedi ymddwyn yn y fath fodd ers ei gael yn euog fel bod angen y gorchymyn.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw pum mlynedd. Yr isafswm oed yw deg, sef oed cyfrifoldeb troseddol, ond lle mae'r diffynnydd o dan 18 oed dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(h) Gorchymyn Hysbysu** - lle mae angen i unigolion a gafwyd yn euog o gyflawni troseddau rhywiol dramor gofrestru â'r heddlu er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag y risg a gyflwynir ganddynt. Gall yr heddlu yng Nghymru a Lloegr roi gorchymyn hysbysu'n uniongyrchol i droseddwr sydd eisoes yn y DU neu sy'n bwriadu dod i'r DU ac sy'n gorfod hysbysu o fewn tri diwrnod i'w dderbyn. Mae gan unigolion hawl i apelio yn erbyn hysbysiad.

**(i) Gorchymyn Risg Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar deithio dramor** –Mae'r Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) wedi disodli'r Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol (RoSHO) a gallai gael ei wneud ar gyfer unigolyn sydd heb ei gael yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar (nac unrhyw drosedd arall) ond sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol.

Gall y SRO gael ei wneud mewn llys ynadon ar gais yr heddlu, NCA, BTP neu'r MODP lle mae unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac mae'r llys yn fodlon bod yr unigolyn yn cyflwyno risg o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu i blant neu oedolion agored i niwed dramor.

Gall SRO wahardd yr unigolyn rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir ynddo, gan gynnwys teithio dramor, neu osod rhwymedigaethau cadarnhaol arno. Rhaid i unrhyw waharddiad a/neu rwymedigaeth fod yn angenrheidiol i warchod y cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol, neu yng nghyswllt mynd dramor, gwarchod plant neu oedolion agored i niwed rhag niwed rhywiol.

Mae'n ofynnol i unigolyn gyda SRO hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw a'u cyfeiriad cartref o fewn tri diwrnod i wneud y gorchymyn a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth yma o fewn tri diwrnod.

Mae SRO yn gallu para am ddwy flynedd o leiaf ond heb unrhyw uchafswm, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau ar fynd dramor sy'n gallu, lle mae'n berthnasol, para am bum mlynedd ar y mwyaf (ond gall gael ei adnewyddu).

Mae'r safon droseddol o brawf yn parhau i fod yn berthnasol. Gall y person sy'n destun y gorchymyn apelio yn ei erbyn a gall yr heddlu neu'r person dan sylw wneud cais i amrywio, adnewyddu neu ollwng y gorchymyn.

Mae torri SRO yn drosedd a'r uchafswm cosb yw pum mlynedd yn y carchar. Lle mae unigolyn yn torri ei SRO, bydd yn dod yn destun gofynion hysbysu llawn.

Mae unigolion sy'n destun SRO yn cael eu cofnodi ar VISOR fel Person Peryglus Posibl (PDP).

**(j) Diddymwyd gofyniad hysbysu gydol oes drwy wneud cais** – Gall unigolion cymwys gyflwyno cais i'r heddlu adolygu eu gofynion hysbysu amhenodol. Bydd yr heddlu'n adolygu'r cais ac yn penderfynu a ddylid diddymu'r gofynion hysbysu. Gwneir y penderfyniad hwn ar lefel Uwch-arolygydd. Bydd y rhai sy'n parhau i gyflwyno risg sylweddol yn aros yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu am oes, lle bo angen.

Bydd unigolion ond yn dod yn gymwys i ofyn am adolygiad ar ôl bod yn destun gofynion hysbysu amhenodol am o leiaf 15 mlynedd yn achos oedolion, ac 8 mlynedd yn achos troseddwyr ifanc.

# Tudalen leol

## Pŵer Partneriaeth – MAPPA

Mae gweithio ym maes tai a digartrefedd ar hyn o bryd yn hynod o heriol. Mae lefelau annigonol o dai cymdeithasol, sector rhentu preifat anodd sy'n aml yn anfforddiadwy ochr yn ochr ag argyfwng costau byw wedi arwain at y cynnydd uchaf erioed yn nifer y bobl y mae angen tai a chymorth digartrefedd arnynt yng Nghymru. Mae hyn yn gwneud gwaith swyddog digartrefedd, sydd bob amser wedi bod yn waith anodd iawn, bron yn amhosibl ar adegau. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth flaengar a gwir awydd i helpu pawb yn golygu bod gweithio yn y sector tai a digartrefedd yng Nghymru yn broffesiwn gwerth chweil.

Nid oes gennym ddigon o fynediad i lety i helpu pawb gymaint ag yr hoffem, ond rydym hefyd yn gwybod bod mwy i ddigartrefedd na thai.

Mae diwallu anghenion trigolion sydd ag anghenion cymhleth fel iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, anableddau corfforol ac unrhyw anghenion cymorth eraill yn gofyn am weithio mewn partneriaeth a chydweithio ar draws nifer o wasanaethau a sefydliadau. Os ychwanegwch chi hanes troseddu a'r gofyniad i gadw'r gymuned a'r gweithlu'n ddiogel, yna mae'r heriau hyn yn cynyddu'n sylweddol. Yn fy marn i, dyma lle mae MAPPA yn ffynnu ac yn dangos gwir bŵer gweithio mewn partneriaeth.

Felly beth sy'n gwneud MAPPA a MAPPA yng Ngogledd Cymru yn benodol, mor unigryw?

Y bobl sy'n rhan o'r broses...y creadigrwydd..... yr her gadarnhaol y mae pob partner yn ei chynnig.... ac ymrwymiad diwyro i ddod o hyd i'r ateb cywir er budd pawb.

Dydy hyn ddim yn digwydd ar ddamwain, ac nid yw'n digwydd drwy orfodaeth. Mae'n digwydd drwy set o werthoedd a rennir ac ymrwymiad i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Daw hyn o arweinyddiaeth glir drwy ein Cadeiryddion MAPPA ac fe'i cefnogir drwy ddiwydrwydd a dycnwch ein Cydlynydd MAPPA. Cysylltu'r dotiau, gwthio'r ffiniau, gofyn y cwestiynau iawn, ymddiried ym mhob partner. Dyma'r holl sgiliau a'r ymddygiad rydyn ni'n ffodus i'w cael yn y MAPPA a sefydlwyd ar gyfer Gogledd Cymru, ac rydw i'n ffyddiog fod pob partner yn ddiolchgar am hynny.

Mae cyfarfodydd MAPPA yn ddwys ar adegau ac, yn gywir felly, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud pethau'n iawn. Ond mae'r gefnogaeth y mae partneriaid yn ei chynnig i'w gilydd a'r diwylliant a'r cydweithredu yma yng Ngogledd Cymru, wedi'u meithrin gan arweinyddiaeth gref a deallgar, a'u dwyn ynghyd drwy drefniadau rheoli cysylltiadau a chydlynu arbenigol, yn gwneud MAPPA yn bartneriaeth unigryw.

**Martin Cooil**
Rheolwr Tai a'r Gwasanaeth Atal
Cyngor Sir y Fflint

## MAPPA a MASH

Sefydlwyd MASH Conwy (Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth) ym mis Mai 2021. Pwrpas datblygu'r MASH oedd canolbwyntio ar yr amcanion canlynol:

- Bydd yr holl adroddiadau diogelu plant ac oedolion ar achosion nad ydynt yn agored i'r Timau Gwaith Cymdeithasol yn cael eu prosesu gan y tîm MASH.
- Nodi atgyfeiriadau lefel isel a ailadroddir nad ydynt yn peri pryder o'u hystyried ar eu pen eu hunain h.y. achosion sy'n dechrau creu patrwm.
- Lleihau nifer yr atgyfeiriadau a ailadroddir a'r achosion lle mae angen Dim Camau Pellach (NFA).
- Gwneud penderfyniadau mwy cadarn ymysg gweithwyr proffesiynol yn seiliedig ar wybodaeth ddigonol, gywir ac amserol.
- Llai o ddyblygu prosesau

Mae manteision MASH yn cynnwys:

- Cael y cyfle i ddatblygu llwybrau sefydledig ar gyfer casglu gwybodaeth a mynediad at wasanaethau gan yr holl bartneriaid, a bydd hyn yn gwella ymhellach unwaith y bydd asiantaethau partner eraill yn ymuno â ni.
- Casglu gwybodaeth amlasiantaethol sy'n arwain at wneud penderfyniadau mwy gwybodus.
- Mae'n gwella'r broses o wneud penderfyniadau drwy ddarparu'r 'darlun mwy'
- Mae'r broses o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a'r ymateb amlasiantaethol yn sicrhau bod plant, teuluoedd ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu.

Mae'r MASH yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o reoli achosion cymwys MAPPA. Mae cynrychiolydd ar gyfer MASH yn eistedd fel aelod panel statudol bob mis a bydd yn sicrhau bod unrhyw bryderon diogelu a nodir yn cael sylw.

Ar ôl derbyn rhestr MAPPA bob mis, bydd ein cymorth busnes ar gyfer MASH yn gwirio pob unigolyn ar ein system i weld a oes unrhyw gysylltiad presennol neu flaenorol. Bydd yr holl wybodaeth wedyn yn cael ei chasglu a'i throsglwyddo i'r cynrychiolydd i'w rhannu yng nghyfarfod MAPPA. Bydd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch Oedolion mewn Perygl a phryderon Amddiffyn Plant. Er enghraifft, pan fydd unigolyn yn cael ei nodi fel unigolyn sydd â phlant a/neu sy'n peri risg i'r plant hynny, bydd cynrychiolydd MASH yn sicrhau bod yr atgyfeiriad diogelu wedi cael ei adolygu a bod y risg wedi cael ei hasesu gan weithiwr cymdeithasol. Gellir rhannu canlyniad y broses hon yng nghyfarfod MAPPA, mae hefyd yn caniatáu i waith ar y cyd gael ei wneud gan gynnwys ymweliadau ar y cyd ag Ymarferydd Prawf a gweithiwr cymdeithasol sy'n arwain at ddull mwy effeithiol o ddiogelu.

Mae cydweithio rhwng MASH a MAPPA yn gwella diogelwch y cyhoedd ac yn lleihau'r risg o erledigaeth a niwed difrifol.

**Samantha Owen**
Rheolwr - Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH)
Cyngor Sir Conwy

**Mae holl adroddiadau MAPPA o Gymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn:**

**[www.gov.uk](http://www.gov.uk)**


T / ACC Gareth Evans
Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Heddlu Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
LL29 8AW

Andy Jones
Prif Swyddog Cynorthwyol
Pennaeth Uned Gyflawni Prawf
Gogledd Cymru
Y Gwasanaeth Prawf
Ffordd Conwy
Bae Colwyn
LL29 7AA

Lowri A. Owen
Cydlynydd MAPPA
Uned Diogelu'r Cyhoedd yn y
Gymuned
Prawf Cymru


Gwasanaeth Prawf Probation Service

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

HM PRISON SERVICE
GWASANAETH CARCHAR EM